



Polisi Bws Cerdded Ysgol Hamadryad – Maes Parcio Havannah Street

Dylid defnyddio'r ddogfen hon i gyfeirio ati ac mae'n rhan o drefniant gyda defnyddwyr maes parcio, yn rhan o Fenter Bwrs Cerdded Ysgol Hamadryad, sydd yn ei thro'n rhan o gynllun teithio a pholisi trafnidiaeth gynaliadwy'r ysgol.

- Mae ysgol newydd Hamadryad mewn cymdogaeth breswyl, a bydd ardal fawr o amgylch yr ysgol lle na fydd caniatâd i rieni barcio. I osgoi problemau parcio, ac yn rhan o bolisi/teithio cynaliadwy'r ysgol, disgwylir y bydd rhieni'n ceisio cerdded i'r ysgol. Fodd bynnag, rydym yn derbyn na fydd cerdded yn opsiwn bob amser.
- Rydym wedi sefydlu partneriaeth ag Awdurdod Harbwr Caerdydd (AHC) i greu "Bws Cerdded". Yn yr achos hwn, defnyddir y term 'bws cerdded' i ddisgrifio man cyfarfod i ofalwyr ollwng eu plant ar amser penodol er mwyn i athrawon fynd â'r plant ar droed yn ddiogel i'r ysgol.
- Y man cyfarfod sydd wedi ei ddewis yw Maes Parcio Havannah Street, sydd y drws nesaf i Westy Dewi Sant. Mae'r maes parcio'n un di-docyn.
- Mae'r trefniant yn caniatáu i rieni a gwarcheidwaid ddefnyddio'r maes parcio am ddim am 20 munud, i ollwng a chasglu plant ar gyfer rhieni nad ydynt yn gallu cerdded i'r ysgol na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ystod y tymor yn unig y mae'r trefniant ar waith, a hynny o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- Mae slotiau amser wedi eu trefnu gydag AHC ac Ysgol Hamadryad i adlewyrchu amseroedd casglu gwahanol.
- Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael

Sut i wneud cais

1. Mae rhaid i rieni a gwarcheidwaid gwneud cais trwy wefan yr ysgol er mwyn cael defnyddio'r maes parcio.
2. Bydd angen dewis y slotiau amser a nodi enw'r plentyn a rhif cofrestru'r car.
3. Bydd angen i chi roi enw eich plentyn, a dylid nodi rheswm pam na all rhieni neu warcheidwaid gerdded i'r ysgol. yn ogystal a theswm dros wneud cais.
4. Ni cheir gwneud mwy na 2 gais.
5. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost yn cadarnhau ei bod / ei fod yn llwyddiannus. Os yw'r cais yn aflwyddiannus fe gewch e-bost yn esbonio'r rheswm pam.
6. Bydd yr ymgeisydd yn cael mynediad i'r holl fanylion ar borth Ysgol Hamadryad neu ar www.mipermit.com Gellir lawrlwytho'r porth ar ffurf app ar bob ffôn clyfar.

Cefnogi'r bws cerdded

Bydd yr ysgol yn cyflwyno bathodynau i rieni sy'n cefnogi'r bws cerdded, ond NID trwyddedau parcio fydd y rhain ac ni fyddant yn dynodi aelodaeth o gynllun trwydded y porth.

Diogelwch yn y maes parcio

Dylai gyrwyr fod yn wylidwrus ac yn ymwybodol o gerddwyr a phlant bach yn y maes parcio bob amser, yn enwedig wrth barcio a gadael manau parcio.

Bydd disgyblion ac athrawon yn derbyn siacedi llachar i'w gwisgo.

Telerau ac Amodau Trwydded Bws Cerdded Maes Parcio Havannah Street

Wedi ei greu Ebrill 2018 - F1.1

This document is available in English.

Cyffredinol

Mae unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at "y Cyngor" yn golygu Cyngor Dinas Caerdydd/Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, ei ragflaenwyr, ei olynwyr neu unrhyw un a ddaw yn ei le neu sydd wedi ei awdurdodi'n asiant ganddo.

Yn y telerau ac amodau hyn, mae "y drwydded" neu "trwydded" neu "trwydded bws cerdded" yn golygu trwydded rithiol wedi ei chyflwyno'n electronig ac wedi ei rhagnodi gan y Cyngor i ddarparu parcio mewn maes parcio dynodedig.

Yn y telerau ac amodau hyn mae unrhyw gyfeiriad at "deiliad y drwydded" yn golygu'r person sydd wedi ei enwi ar y cyfrif y mae'r drwydded wedi ei chofrestru ynddo.

Yn y telerau ac amodau hyn, mae "man parcio" yn golygu ardal yn y maes parcio y mae'r drwydded yn ddilys.

Mae unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol, neu reoliad neu offer statudol yn cynnwys cyfeiriad at y ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol neu reoliad neu offeryn statudol sydd wedi'i (d)diwygio, ei (h)estyn neu ei (h)ailweithredu.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y telerau ac amodau hyn a'r Gorchymyn Mannau Parcio sy'n ymwneud â'r man parcio y cyflwynir y drwydded ar ei gyfer, y Gorchymyn Mannau Parcio fydd oruchaf. Gellir gwneud cais ysgrifenedig am unrhyw Orchymyn Mannau Parcio o'r Gwasanaethau Parcio, Blwch Post 47, Caerdydd CF11 1QB.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y Telerau ac Amodau hyn ar unrhyw adeg.

1. Ceisiadau

Rhaid gwneud pob cais yn y dull a bennir gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y broses ymgeisio ar unrhyw adeg os bydd angen.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais pan nad yw'n fodlon bod yr amodau sydd ar waith ar gyfer gwneud cais wedi eu cyflawni. Gellir gofyn i chi ddarparu dogfennau neu dystiolaeth ychwanegol ar unrhyw adeg i gefnogi cais.

2. Costau

- a. Bydd pob trwydded yn costio £3 am y flwyddyn academaidd.

3. Defnyddio Trwydded Bws Cerdded

Dim ond yn y maes parcio y mae trwydded bws cerdded wedi ei chyflwyno ar ei gyfer y caniateir parcio.

Nid yw trwydded bws cerdded yn gwarantu cilfach neu le parcio. Mae pob cilfach neu le parcio ar gael ar sail y cyntaf i'r felin.

Dom ond ar gyfer y slotiau amser y gwnaed cais amdanynt yn y cais gwreiddiol y bydd trwydded bws parcio yn rhoi hawl parcio. Os bydd angen rhagor o amser arnoch, y tu hwnt i'r amser a ganiateir gan y drwydded bws cerdded, eich cyfrifoldeb chi fydd talu'r swm angenrheidiol drwy beiriant parcio neu drwy MiPermit.

Gall y Cyngor neu'r heddlu neu unrhyw berson arall ag awdurdod priodol sy'n gweithredu ar eu rhan atal yr hawl parcio dros dro yn y maes parcio cyfan neu mewn rhan ohono, a dynodir hyn drwy arwyddion neu farciau ffordd. Rhaid i chi beidio â pharcio pan fo gwaharddiad parcio dros dro gan y Cyngor neu'r heddlu ar waith, hyd yn oed pan fo gennyich drwydded bws cerdded. Mae hyn yn cynnwys diwrnodau pan fo digwyddiadau'n cael eu cynnal.

4. Ildio, diddymu a dilysrwydd trwyddedau bws cerdded

- a. Dim ond ar gyfer y rhif cofrestru sydd wedi ei gofrestru y mae trwydded bws cerdded yn ddilys. Bydd angen nodi'r rhif cofrestru yn llawn ac yn gywir. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y rhif cofrestru a gofrestrir ar gyfer y drwydded bws cerdded yn llawn ac yn gywir.
- b. Os bydd angen newid y rhif cofrestru sydd wedi ei gofrestru ar gyfer trwydded bws cerdded am unrhyw reswm, cyfrifoldeb deiliad y drwydded bws cerdded yw diweddarau manylion ei gyfrif gyda'r rhif cofrestru cerbyd newydd. Bydd pwynt 5.1 yn parhau i fod ar waith. Dylid parcio yn

rhywle arall tan i fanylion cofrestru'r cerbyd gael eu newid a dylid cadw at unrhyw reolau meysydd parcio eraill tan i gofrestrriad y cerbyd newid.

- c. Dim ond rhwng y dyddiadau a'r amseroedd a nodir yng nghyfrif deiliad y drwydded bws cerdded y bydd y drwydded yn ddilys.
- d. Gan ddeiliad y drwydded bws cerdded y mae'r cyfrifoldeb dros adnewyddu'r drwydded bws cerdded. NI FYDD trwyddedau bws cerdded yn adnewyddu'n awtomatig. Efallai na ddaw hysbysiad bod trwydded bws cerdded yn dod i ben. Ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i hysbysu deiliad bws cerdded y gall y drwydded ddod i ben neu y dylid ei hadnewyddu.
- e. Y Cyngor fydd yn berchen ar drwyddedau bws cerdded a gellir eu canslo neu eu diddymu ar unrhyw adeg.
- f. Os, am unrhyw reswm, bydd Swyddog Gorfodi'r Cyngor neu berson arall ag awdurdod ac sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn gofyn am gael gweld tystiolaeth o'ch trwydded bws cerdded, rhaid i chi ei dangos.
- g. Os bydd y Cyngor o'r farn bod trwydded bws cerdded yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n torri'r telerau ac amodau hyn, gall y Cyngor ganslo neu ddiddymu'r drwydded bws cerdded, ac os yw'n fodlon bod camddefnydd wedi ei ganfod, gall atal unrhyw geisiadau pellach neu gall weithredu unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol os gwneir cais pellach.
- h. Pan fo anghydweld o ran cymhwysedd unrhyw gerbyd neu ymgeisydd am drwydded bws cerdded, y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad, a bydd y penderfyniad hwnnw, wedi ystyried pob tystiolaeth yn llawn, yn derfynol.
- i. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo trwydded bws cerdded ar unrhyw adeg.

5. Cosbau

Rhaid cadw at y telerau ac amodau hyn bob adeg. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded bws cerdded a defnyddiwr y drwydded bws cerdded yw sicrhau y cedwir at y telerau ac amodau.

Dim ond ar gyfer y rhif cofrestru sydd wedi ei gofrestru y mae trwydded bws cerdded yn ddilys. Bydd rhif cofrestru sy'n anghyflawn neu'n anghywir yn gwneud y drwydded bws cerdded yn annilys.

Os, am unrhyw reswm, nad oes gan ddeiliad bws cerdded neu ddefnyddiwr trwydded bws cerdded (os yw'n wahanol i ddeiliad y drwydded) drwydded bws cerdded, ni fydd ganddo hawl i barcio fel pe bai buddion trwydded bws cerdded ar waith.

Nid yw trwydded bws cerdded yn caniatáu parcio mewn man parcio neu fan sydd wedi ei ddynodi ar gyfer defnyddwyr penodol (er enghraifft, ond heb fod wedi'i gyfyngu iddynt, ddeiliaid bathodynau glas, deiliaid trwydded busnes, bysiau neu gerbydau nwyddau ac ati) heb gydymffurfio â thelerau'r man parcio hwnnw.

Os bydd unrhyw berson yn torri'r telerau ac amodau hyn, gallai perchennog y cerbyd neu, yn achos cerbyd sydd wedi ei logi, logwr y cerbyd, dderbyn Hysbysiad Tâl Cosb (dirwy barcio) yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004.

Nid yw'r telerau ac amodau hyn yn disodli unrhyw ofynion sydd ar unrhyw un o ran parcio cerbyd gan y Gorchymyn Mannau Parcio sy'n berthnasol i'r maes parcio hwnnw.

6. Ad-daliadau

- a. Nid yw'r cyngor yn rhoi ad-daliadau am drwyddedau bws cerdded.

7. Defnydd system APCA (Adnabod Platiau Cofrestru Awtomatig)

Gall camerâu neu dechnoleg Adnabod Platiau Cofrestru Awtomatig fod ar waith yn y maes parcio a gellid eu defnyddio i gasglu data am ddefnydd eich trwydded bws cerdded. Wrth dderbyn trwydded bws cerdded, rydych yn cytuno iddi gael ei defnyddio at y dibenion hynny neu unrhyw ddibenion eraill a ganiateir gan y gyfraith.

8. Diogelu Data

Bydd gwybodaeth bersonol a roddwch i ni yn cael ei phrosesu'n unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gellir ei defnyddio mewn nifer o ffyrdd, e.e. i wirio'ch hawl at drwydded bws cerdded, at ddibenion dadansoddi ystadegau neu unrhyw ddiben arall a ganiateir gan y gyfraith. Yn benodol, gellir rhannu'r wybodaeth hon â Swyddfa Archwilio Cymru neu i ganfod ac atal twyll.

Mae'r Cyngor wedi awdurdodi MiPermit i weinyddu trwyddedau bws cerdded meysydd parcio. Gallai MiPermit gasglu'r wybodaeth ganlynol wrth i chi ddefnyddio eu gwasanaethau: eich enw, eich cyfeiriad e-bost, eich rhif ffôn, manylion y cyfeiriad a'r cerbyd, dyddiad ac amser dechrau a hyd y parcio, a gwybodaeth am y cardiau talu a ddefnyddir i brosesu trafodion parcio/trwyddedu. Sylwer: Nid ydynt yn storio manylion llawn cardiau talu. Mae copi o'u datganiad preifatrwydd yn www.mipermit.com.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r Cyngor.
Dros y ffôn: (029)2087 2088 neu;
Drwy'r post i'r Gwasanaethau Parcio, Blwch Post 47, Caerdydd CF11 1QB**